**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Ariannu Allanol

**Ystafell Bwyllgor 5 - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mercher, 6 Rhagfyr 2017 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd C E Lloyd, (Is-gadeirydd) a fu'n llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| J E Burtonshaw | M C Child | W Evans |
| A S Lewis | J A Raynor | M Thomas |

| **Swyddog(ion)** | |
|---|---|
| Stephen Holland | Uwch-Gyfreithiwr |
| Spencer Martin | Cydlynydd Perthnasoedd y Sector Gwirfoddol |
| Carol Morgan | Rheolwr Datblygu Rhagor o Gartrefi |
| Jeremy Parkhouse | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Paul Relf | Rheolwr Cyllid Allanol |
| Jane Whitmore | Rheolwr Partneriaethau a Chomisiynu |
| Gaynor Winsor | Cyfrifydd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): R Francis-Davies, D H Hopkins a/ac R C Stewart

---

## 23 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, cyhoeddwyd y buddiannau canlynol:

Y Cynghorydd A S Lewis - cofnod 25 - Rhaglen Tai Arloesol - Cefnogi adeiladu 2000 o gartrefi fforddiadwy newydd yng Nghymru - Aelod y Cabinet arweiniol o ran safleoedd Ffordd Colliers a Pharc yr Helyg - personol.

## 24 Cofnodion:

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod y Panel Ariannu Allanol a gynhaliwyd ar 4 Hydref 2017 fel cofnod cywir.

## 25 Rhaglen Tai Arloesol - Cefnogi cyflwyno 2,000 o gartrefi newydd fforddiadwy yng Nghymru.

Cyflwynodd Rheolwr Datblygu 'Mwy o Gartrefi' adroddiad a ddarparodd fanylion y cais i Raglen Tai Arloesol Llywodraeth Cymru - i gefnogi adeiladu 20,000 o gartrefi fforddiadwy newydd yng Nghymru.

**Penderfynwyd** y dylid:

1) Cymeradwyo cais cam 1 yn ôl-weithredol;
2) Cymeradwyo cyflwyno ail gais am gyllid ar gyfer cam 2 erbyn dyddiad cau Llywodraeth Cymru.

## 26 Cyllid Compact Abertawe 2018/19.

Cyflwynodd y Swyddog Partneriaethau a Chomisiynu adroddiad a oedd yn ceisio penderfyniadau o ran ceisiadau rownd ariannu unigryw Cronfa Compact Abertawe 2018/19.

Cynigiwyd bod y tri gwasanaeth a gafwyd yn flaenorol drwy'r Gronfa Newid ar sail contract yn cael eu cyflwyno dros gyfnod o 6 mis er mwyn caniatáu parhad wrth i'r broses gomisiynu fynd rhagddi. Y tri gwasanaeth cyfredol a gafwyd oedd Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Abertawe, Canolfan Cyngor ar Bopeth Abertawe a Fforwm yr Amgylchedd Abertawe.

Ychwanegwyd bod y cyllid a oedd yn weddill wedi'i lansio fel rownd ariannu agored sef y Gronfa Compact. Roedd yn rhaid i bob ymgeisydd gysylltu eu ceisiadau, eu prosiectau neu eu gwasanaethau craidd yn uniongyrchol â Chynllun Corfforaethol y cyngor, gan esbonio sut yr oeddent yn cyfrannu at un o'r pum blaenoriaeth.

Gofynnodd y cynghorwyr i wybodaeth ychwanegol gael ei darparu mewn perthynas â phob ymgeisydd ar gyfer y Gronfa Compact.

**Penderfynwyd:**

1) Estyn cytundebau contract am 6 mis ym 2018/19 i'r tri sefydliad presennol a oedd yn derbyn CLG tair blynedd yn flaenorol;
2) Gohirio'r ceisiadau am arian o'r Gronfa Compact tan gyfarfod nesaf y panel a drefnir ar gyfer dydd Mercher, 10 Ionawr 2018, er mwyn darparu gwybodaeth ategol ychwanegol am bob ymgeisydd.

## 27 Gwahardd y cyhoedd.

Gofynnwyd i'r panel wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitem fusnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad ar y sail ei fod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel a nodwyd ym mharagraff gwahardd 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y panel Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes lle roedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol, fel a nodwyd yn yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD** y dylid gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol.

**(SESIWN GAEËDIG)**

## 28 Trosolwg o'r Ceisiadau Presennol a'r Rhai Sydd ar Ddod am Arian Ewropeaidd ac Allanol.

Cyflwynodd y Rheolwr Ariannu Allanol adroddiad i ddarparu'r diweddaraf am geisiadau arfaethedig am gyllid Ewropeaidd a cheisiadau eraill am gyllid allanol a darparodd ddiweddariadau o ran perfformiad prosiectau a gymeradwywyd yn flaenorol gan y panel.

**Penderfynwyd:**

1) Nodi'r diweddariadau am brosiectau a amlinellir yn Adrannau 2 i 5 yr adroddiad, ar y cyd â gwybodaeth fanwl am berfformiad prosiectau o fewn yr adroddiad monitro misol.
2) Cymeradwyo estyn prosiect presennol Gweithffyrdd+ tan fis Rhagfyr 2022;
3) Cymeradwyo cyflwyno cynllun busnes i WEFO i geisio cyllid gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop i gyflwyno prosiect diweithdra tymor byr Gweithio Abertawe: Gweithffyrdd+;
4) Cymeradwyo unrhyw grant Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid ychwanegol sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru i ategu'r Gronfa Datblygu a Gwella Eiddo a chynlluniau Cartrefi Uwchben Siopau presennol.

Daeth y cyfarfod I ben am 2.31 pm

**Cadeirydd**